

Ar Sul y Mamau

Gweddi dros famau yn y cyfnod clo

Ein Tad yn y nefoedd, ar Sul y Mamau rydym yn offrymu ein gweddiâu dros famau ein gwlad a'n byd.

Rydym yn gweddiö dros famau arbennig:

mamau newydd y cafodd eu babanod eu geni yn ystod y cyfyngiadau ar symud. Dydyn nhw ddim yn gallu cael ymwelwyr; maen nhw'n sownd gartref, yn aml yn teimlo'n unig. Llanwa eu calonnau â llawenydd bywyd newydd, gwerthfawr. 'Felly dw i'n gweddiö y bydd Duw, ffynhonnell gobaith, yn llenwi'ch bywydau gyda'r llawenydd a'r heddwch dwfn sy'n dod o gredu ynddo; ac y bydd yr Ysbryd Glân yn gwneud i obaith orlifo yn eich bywydau chi!' (Rhufeiniaid 15:13)

mamau plant bach sy'n ceisio'u diddanu drwy'r dydd, sydd wedi blino ac wedi cael llond bol. Llanw nhw â charedigrwydd a thynnerwch wrth iddyn nhw dystio i wyrth anhygoel eu plant yn tyfu ac yn datblygu. 'Peidiwch gadael i ddim byd eich poeni chi. Gweddiwch, a gofyn i Dduw am bopeth sydd arnoch ei angen, a byddwch yn ddiolchgar bob amser.' (Philipiaid 4:6)

mamau sy'n addysgu gartref yn y cyfnod clo. Mae eu dyddiau'n llawn gwersi Teams neu Zoom. Maent yn ysgogi, yn cysuro, yn annog eu plant – ac mae cynifer yn ceisio gweithio gartref eu hunain. Rho amynedd a chalon hwyliog wrth iddynt fuddsoddi amser ac egni yn addysg eu plant. 'Dŷn ni'n gwybod fod Duw'n trefnu popeth er lles y rhai sy'n ei garu – sef y rhai mae wedi'u galw i gyflawni ei fwiadau.' (Rhufeiniaid 8:28)

mamau sydd â phlant ag anghenion ychwanegol. Nid yw llawer wedi gallu cael y cymorth a'r seibiant arferol sy'n gwneud bywyd yn ysgafnach iddynt. Rho galonnau llawn dyfalbarhad iddynt wrth iddyn nhw ofalu am eu plant, trysorau y tu hwnt i bris. 'Ond dŷn ni'n concro'r cwbl i gyd, a mwy, am fod y Meseia wedi'n caru ni. Dw i'n hollol sicr fod dim byd yn gallu'n gwahanu ni oddi wrth ei gariad e. Dydy marwolaeth ddim yn gallu, na'r un profiad gawn ni mewn bywyd chwaith. Dydy angylion ddim yn gallu, na phwerau ysbrydol drwg. Dim byd yn y presennol nac yn y dyfodol.' (Rhufeiniaid 8:37,38)

mamau sy'n torri eu calon oherwydd bod eu plant yn byw gyda phryder, iselder, unigrwydd, dibyniaeth neu ofn y dyfodol. Rho dy heddwch iddynt a ffydd i ddal gafaél yn dy addewidion. 'Paid bod ag ofn, achos dw i gyda ti. Paid dychryn – fi ydy dy Dduw di!



Dw i'n dy nerthu di ac yn dy helpu di, dw i'n dy gynnal di ac yn dy achub di hefo fy llaw dde.' (Eseia 41:10)

mamau sy'n galaru am eu bod wedi colli anwyliaid, sy'n wynebu heriau tor-perthynas, colli cyflogaeth, a'r rhai sy'n gweld colli amser yng nghwmni teulu a ffrindiau. Mae Iesu'n gwybod sut maen nhw'n teimlo, oherwydd mae wedi dioddef hefyd. Caniatâ i'w gariad lenwi eu calonnau. 'Mae e'n iacháu'r rhai sydd wedi torri eu calonnau, ac yn rhwymo'u briwiau.' (Salm 147:3)

mamau sy'n byw mewn gwerysloedd ffoaduriaid, mewn parthau lle mae rhyfel, neu dlodi neu newyn, neu hyd yn oed yn ofni trais, neu erledigaeth, am eu ffydd. 'O! Dduw, sy'n gweld popeth, yn gwybod popeth, yn gyfiawn a thosturiol, trugarha wrthynt. Annog dy bobl i weithredu ar eu rhan. Clod i Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist! Fe ydy'r Tad sy'n tostaro a'r Duw sy'n cysuro.' (2 Corinthiaid 1:3)

Addewid

'Ond does ond rhaid i chi ddioddef am ychydig. Mae Duw, sydd mor anhygoel o hael, yn eich galw chi sy'n perthyn i'r Meseia i rannu ei ysblander tragwyddol. Bydd yn eich adfer chi, a'ch cryfhau chi, a'ch gwneud chi'n gadarn a sefydlog. Fe sydd biau'r grym i gyd, am byth! Amen!' (1 Pedr 5:11)

Ac i ti, Arglwydd, y cyflwynwn ein holl weddiâu, drwy Iesu Grist, Amen.

O'r byd a'r betws

Hunaniaeth

Yn amlach na pheidio, bydd dechrau mis Mawrth yn ffanffer o ddatlu hunaniaeth, gyda'r Cymry ym mhob twll a chornel yn gwisgo'u Cymreictod ac yn bwyta powlenni o gawl cennin a chacennau cri. Anogir merched i wisgo sioliau o frethyn Cymreig a'r bechgyn i wisgo wasgodau llwyd a chapiau stabl. Dechrau Mawrth, gwelwn chwarae gemau rygbi rhyngwladol y Chwe Gwlad a phroffir gwefr o Gymreictod. O leiaf bydd y genhinen yn ein capiau a bydd cynulleidfaoedd yn canu 'Dros Gymru'n gwlad', a 'Cofia'n gwlad, benllywydd tirion'.

Dathlu hunaniaeth cenedl

Cyd-ddathlwn yn llawen gyda'r delweddau allanol hyn. Ffenomen ryfedd yw gweld amryw o Gymry Llundain yn gwisgo arwyddion o'u Cymreictod wrth loddesta yn y Savoy ar Fawrth 1af, a rhoi'r Cymreictod 'nôl yn y cwpwrdd gyda'r wasgod a bathodyn y Ddraig Goch am flwyddyn wedyn. Tybiaf y bydd y rhan fwyaf o ddarllenwyr *Cenn@d* yn cytuno bod i hunaniaeth genedlaethol fwy na gwisg allanol a chynnig llwncdestun alcoholaidd i Dewi Ddyfrwr. Mae i Gymreictod amrywiaeth o ddylanwadau ddoe ein gwreiddiau a chydabyddiaeth bod ein heddiw yn dal gafael ar ein perthyn a'r profiadau sy'n ddyfnach na man ein geni ac iaith ein lleferydd. Ni allwn fod yn Gymry un diwrnod.



Hunaniaeth Gristnogol

Beth am ein hunaniaeth Gristnogol? Gobeithio na fyddwn yn clywed mwy am grefydd sy'n gyfyngedig i adeilad penodol, na thraddodiad enwadol. Wrth gwrs bod ein ddoe yn rhan o'n hunaniaeth a'n hetifeddiaeth, a chydabyddiaeth fod yr argyhoeddiad mewnol o ffydd yn Iesu Grist yn sylfaenol i bopeth arall. Mynegiant o'r ffydd honno yw ein tystiolaeth. Gall y dystiolaeth fod ar lwyfan neu mewn sgwrs rhwng dau ar gornel stryd, a gall y gweithredoedd grasol, trugarog, maddeugar, heddychlon a chariadlon ddigwydd yn unrhyw le. Bydd rhai yn arfer ffydd ac yn cynnal oedfa rhwng dau yn yr 'ystafell ddirgel', a gall y

gweithredoedd amrywio o wasanaeth mewn swydd i estyn y cwpan o ddŵr i'r sawl sy'n sychedig. Bydd neges dameg y 'defaid a'r geifr' (Mathew 25) yn ganllaw gwerthfawr. Nid rhywbeth achlysurol yw bod yn Gristion, ond ffordd o fyw.

Pethau bychain?

Dyfynnir geiriau cyfarwydd Dewi Sant am wneud y pethau bychain, yn 'y rhai a welsoch ac a glywsoch gennyf i'. Mae'n ddifyr fod Llywodraeth San Steffan yn cydnabod iddyn nhw archebu gormod o frechlynnau i gwrdd ag anghenion gwledydd Prydain, a'i bod am eu rhoi i gynorthwyo rhywrai ar gyfandir yr Affrig, a da hynny. Onid cam cadarnhaol fyddai estyn rhodd ariannol i gronfa Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) i ddarparu modd o brynu brechlynnau nawr i'r gwledydd sy'n datblygu?

Un o ddywediadau gafaelgar y misoedd olaf hyn fu datgan nad oes unrhyw un yn ddiogel nes bod pawb yn ddiogel. Byddwn yn debygol o dderbyn y bydd feirws Covid-19 yn parhau am gyfnod sylweddol i ddod, a'r unig modd i drigolion daear ddod yn ôl i'r normalrwydd newydd fydd derbyn brechiadau, fel gyda sawl feirws arall. Rhannwyd y syniad bod y sawl sydd wedi derbyn brechiad yn estyn rhodd i'r WHO er mwyn helpu yn y broses honno. Bydd pob 'cam bach' yn gyfraniad at 'ddynoliaeth lawn dwf'.

**Denzil John
Caerdydd**

Cofio a diolch am fywyd Myfanwy Sandham

Yng Nghaergybi y ganwyd Myfanwy Sandham, y plentyn canol rhwng dau frawd, Alun a Gwilym, a mynychai gapel y Bedyddwyr, Hebron, yno. Wedi mynd yn fyfyrwr i Goleg y Normal, cafodd ei swydd gyntaf yn Lerpwl, cyn dychwelyd i Gaergybi.

Priododd â'r gweinidog Bedyddiedig Huw Thomas, a chael tri o fechgyn: Hefin, Hywel a Rhodri. Ym 1951 cafodd ei gŵr alwad i Galfaria, Aberdâr, mewn cyfnod pan oedd y diwydiant glo yn ei anterth. Cafodd Myfanwy waith yn dysgu cerddoriaeth yno, ac fe wnaeth y teulu ymelwa o gynhesrwydd y gymdeithas glôs yno.

Yna 'mlaen i Adulam, Felin-foel, ger Llanelli, lle y cafodd waith unwaith eto fel athrawes gerdd. Wedi pymtheg mlynedd yno, fe syfrdanwyd y teulu gan farwolaeth ei gŵr, ac yntau'n ddim ond 65 oed. Yn ychwanegol at hynny, daeth y cyfrifoldeb o orfod gadael y mans mewn cyfnod byr, a phrynu tŷ iddi ei hun a Rhodri, gan fod Hefin a Hywel eisoes wedi gadael cartref.

Symudodd yn gyntaf i Gwm-ffrwd ac yna i sawl man arall, gan gynnwys tair blynedd yng Nghernyw. Yn ystod y cyfnod hwnnw, fe briododd am yr ail dro, â Peter Sandham.

Ond dychwelyd i Gymru a wnaethant, yn gyntaf i Landdarog, ac yna i awel y môr ym Mhorth-cawl. A hynny tan i iechyd Myfanwy ddirywio'n raddol dros gyfnod o rai blynyddoedd.

Drwy'r Beibl Drwy'r Grawys

Cyfes o saith defosiwn gan Joseff Edwards o Gymdeithas y Beibl yn rhoi golwg inni ar ddarlun mawr y Beibl a'n rhan ynddo

Wythnos 4

Proffwydoliaeth, galwad a gobaith – heddwch ynghanol y storm

Darllen: Jeremeia 29:4–11

Myfyrio

'Nid yw bywyd yn fater o aros i'r storm basio ... Mae'n fater o ddysgu dawnsio yn y glaw.' (Vivian Greene)

Cyfnod yr alltudiaeth oedd un o gyfnodau tywyllaf hanes cenedl Israel. Fe ddinistriodd y Babiloniaid Jerwsalem, chwalu'r ddinas a sefydlodd Dafydd, a llosgi i lawr y deml a adeiladodd Solomon. Gadawyd Jerwsalem yn adfeilion ac fe alltudiwyd pobl Dduw fel ffoaduriaid, a'u gorfodi i fyw mewn gwlad dramor ac estron.

Ond mae alltudiaeth yn fwy na digwyddiad hanesyddol yn stori'r Beibl; mae'n drosiad o'r hyn rydyn ni'n ei brofi heddiw. Mae bywyd a'i heriau yn ein hatgoffa nad yw pethau fel y dylen nhw fod. Rydyn ninnau hefyd yn byw mewn alltudiaeth heddiw.

Ond, ynghanol y tywyllwch, mae gobaith yn disgleirio. Mae Duw yn codi proffwydi sy'n rhybuddio am farn ond hefyd yn addo bod y gorau eto i ddod. Gallwn ddysgu dawnsio yn y glaw!

Mae Jeremeia yn ysgrifennu llythyr at alltudion yn y dyfodol. Pa obaith y mae'n ei roi iddyn nhw?

Mae Jeremeia yn ysgrifennu at y rhai sydd mewn alltudiaeth er mwyn dweud wrthyn nhw na fydd Duw yn eu hanghofio. Mewn gwirionedd, mae'n dweud bod gan Dduw gynllun o hyd, hyd yn oed mewn alltudiaeth. Pan fydd 70 mlynedd wedi mynd heibio,

bydd yn dod i'w nôl nhw ac yn mynd â nhw yn ôl i'w gwlad. Efallai fod gan bobl Israel ddyddiau tywyll o'u blaenau, ond mae Duw gyda nhw hyd yn oed yn yr alltudiaeth ac mae'n rhoi gobaith iddyn nhw y bydd yfory'n well.

Pan fyddwn ynghanol twnnel tywyll, mae Duw yn addo bod golau ar ben draw'r twnnel bob amser. Mae marwolaeth ac atgyfodiad Iesu yn dweud yn glir wrthym fod dyfodol gwell a gobeithiol yn bosib bob amser. Mae Iesu hefyd wedi addo dychwelyd atom, gan ein dychwelyd ni yn ôl at Dduw. Nid yw alltudiaeth yn para am byth!

Beth mae Jeremeia 29 yn ei ddysgu inni am fyw'n dda fel alltudion heddiw?

Cofiwch fod pobl Israel wedi gorfod treulio 70 mlynedd yn alltudion, 70 mlynedd o fod oddi cartref. Cyfeirir at Gristnogion yn aml fel 'alltudion' yn y Testament Newydd. Rydyn ni'n byw 'oddi cartref', oherwydd bod ein 'gwir gartref' yn y nefoedd a'r ddaear newydd. Mae'n siŵr nad oedd y 70 mlynedd hynny o aros yn hawdd, ac nid ydym ninnau ychwaith yn ei chael yn hawdd wrth aros heddiw. Ond dylai stori'r Beibl ein hysbrydoli i ddal ati yn llawn hyder. Gallwn ennill oddi cartref!

Gofynnodd Duw i Israel geisio heddwch a ffyniant y ddinas. Ni ofynnodd iddyn nhw aros nes i'r storm fynd heibio – fe'u hanogodd i ddawnsio yn y glaw! Roedd Duw am i Israel siapio a gwella dinas eu halltudiaeth. Mae Cristnogion yn alltudion, ond fe'n gelwir hefyd i fod yn bobl sy'n gwneud gwahaniaeth.

Ymateb

Sut fedrwch chi ddawnsio yn y glaw heddiw?

Beth am fynd ymlaen i ddarllen yr wythnos hon:

Diwrnod 2: 1 Brenhinoedd 18.1–39

Diwrnod 3: Hosea 1.1–11, 3.1–5

Diwrnod 4: 2 Cronicl 29.1–11, 32.1–23

Diwrnod 5: 2 Cronicl 36.1–23; Salm 137.1–9

Diwrnod 6: Eseaia 52.1–15, 53.1–12

Diwrnod 7: Nehemeia 1.1–11, 2.1–20

Llyfr Adnoddau 'Myfi yw'r Bugail Da'

Bydd llawer oddi mewn a thu hwnt hyd yn oed i Eglwys Bresbyteriaidd Cymru wedi defnyddio ein llyfrau thema dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn gwybod pa mor werthfawr ydynt. Maen nhw'n llawn erthyglau a syniadau i'n hannog yn ein ffydd a'n cerddeddiad gyda Duw, ac wedi'u hysgrifennu'n arbennig ar gyfer merched ein heglwysi gan Carys Davies a Sarah Morris, gweithwyr Dorcas.

Ein thema eleni yw'r geiriau: 'Myfi yw'r bugail da. Y mae'r bugail da yn rhoi ei einioes dros y defaid' (Ioan 10:11). Rydym wedi cynnwys astudiaethau Beiblaidd, gwasanaeth cyflawn, tystiolaethau ac amlinelliad o wasanaethau amrywiol, yn ogystal â diweddariadau ar ein

prosiectau cenhadol a syniadau ar gyfer crefft.

Medrwy archebu copïau drwy gysylltu ag Eirian Roberts, yn Swyddfa'r Bala, dros y ffôn (01678 520065) neu drwy e-bostio eirian.roberts@ebcpcw.cymru.

Os byddwch yn e-bostio archeb, dylech gynnwys: enw, cyfeiriad gyda chod post, nifer y copïau, enw eich henaduriaeth.

Cynigir y copïau yn rhad ac am ddim, ond byddwn yn croesawu rhoddion tuag at y costau. Os ydych chi'n archebu copi i chi'ch hun, beth am ystyried archebu ail gopi ar gyfer ffrind?

Sarah Morris





Y Silff Lyfrau



Gan fod cymaint o drafod dylanwad crefydd ar wleidyddiaeth yr Unol Daleithiau wedi digwydd yn ystod blynyddoedd arlywyddiaeth Donald Trump, penderfynais yn ddiweddar droi at gyfrol a fu ar fyslffoedd ers amser, a'i darllen o glawr i glawr y tro hwn. Ei theitl yw *Paul, the Apostle to America: Cultural Trends and Pauline Scholarship*. Fe'i cyhoeddwyd yn 1994 gan Westminster/John Knox Press, Louisville, Kentucky, a'i hawdur yw Robert Jewett, ysgolhaig a ysgrifennodd lawer am yr Apostol dros y blynyddoedd gan gynhyrchu campwaith o esboniad (1207 o dudalennau) ar y Llythyr at y Rhufeiniaid yng nghyffres Hermeneia yn 2007.

Coffa da hefyd am ei ymweliad ychydig dros ddeng mlynedd yn ôl â Choleg Llambod, ac yntau'n Athro Mygedol yno. Traddododd ddarlith ar 'Y Llythyr at y Rhufeiniaid yn yr Unfed Ganrif ar Hugain' ac un arall ar natur yr eglwys cynnar yng nghyfnod y Testament Newydd sy'n cael ei chynnwys yn y gyfrol dan sylw.

Dadleuodd nad yn unig am eglwysy'n ymgynnull yn nhai'r credinwyr cynnar y dylid meddwl yn y cyswllt hwn, ond amdanynt

yn cyfarfod yn ogystal mewn tenementau ac yn gorfod cynnal eu cyfarfodydd mewn lleoedd cyfyng iawn. Ar sail tystiolaeth mai yn ardaloedd tlotaf Rhufain y trigai'r rhan fwyaf o'i Christnogion, pwysleisiai nad cyfundrefn hierarchaidd gyda noddwr wrth y llyw a geid yn yr eglwys, ond un fwy gwerinol a chyfartal gyda'r amcan o rannu eu hadnoddau prin.

Fel y noda is-deitl y casgliad hwn o naw o'i ysgrifau, roedd yn fwriad gan yr awdur i ystyried cysylltiad yr Apostol â'r ymarfer o grefydd yn America o'i sefydlu hyd at ein dyddiau ni. Yn ei ysgrif agoriadol canfu ormod o ddylanwad esboniaeth Ewrop ar ein dealltwriaeth o ddysgeidiaeth Paul, a bod hynny'n tueddu i arwain at awydd i gydymffurfio â threfn hierarchaidd. Ar y llaw arall, mae traddodiadau'r ymsefydlwyr cynnar a'u disgynddion yn tueddu i wrthod awdurdod arweinwyr a mynnu bod yn rhydd i ddilyn eu trywydd eu hunain. Er y pwyslais mawr hwn ar ryddid yn yr efenyl, a ysgogwyd gan Paul, gwelwyd methiant cyson i'w gymhwyso at bechod caethwasiaeth, at ragfarn, at ddarostyngiad economaidd ac at ddiffyg rhannu adnoddau.

Felly, mae'n rhoi llawer o ofod i rai o'r trafferthion sy'n codi ym mywyd cyfoes yr Unol Daleithiau. Ceir ganddo drafodaeth dreiddgar o feirniadaeth Paul o'i gyd-ldewon pan ddywed: 'Gallaf dystio o'u plaid fod ganddynt sêl dros Dduw. Ond sêl heb ddeall ydyw' (Rhufeiniaid 10.2). Yng ngoleuni rhai o'r digwyddiadau diweddar yno wedi'r etholiad arlywyddol, ynghyd â'r honiadau eithafol gan rai pobl grefyddol, mae'r hyn a ysgrifennodd Jewett dros chwarter canrif yn ôl yn dal yn hynod berthnasol heddiw.

Mae'r Apostol yn siarad o brofiad am beryglon penboethni, ac er mai delio'n benodol ag achos arbennig o hynny ddeng mlynedd ar hugain yn ôl a wna awdur y gyfrol hon, mae ei sylwadau lawn mor berthnasol i'r sefyllfa bresennol yn y wlad. Problem fawr gyfoes arall yno yw'r hyn

a elwir yn 'prynwriaeth' (*consumerism*). Trafoda'r mater hwn ar sail cyfeiriad Paul at un o'r Deg Gorchymyn, 'Na chwennych' (gw. Rhufeiniaid 7.7). Chwennych pethau'r byd hwn yw un o beryglon mwyaf ein cyfnod, a chyfeirir at y gobaith o feddiannu bywyd yr Ysbryd er mwyn inni gael ein rhyddhau o ddeddfau'r gymdeithas brynwriaethol.

Dywedir mai un o'r rhesymau pennaf am ddiffyg cariad y dyn du yn yr Unol Daleithiau at Paul yw ei agwedd honedig at gaethwasiaeth, ac, wrth gwrs, defnyddiwyd rhannau o'i lythyrau i gyfiawnhau'r arfer hwn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dadl Jewett yw mai o'r llythyrau diweddaraf a briodolir iddo y daw'r anogaethau i gaethweision a'u perchnogion, ac mae'n credu ei fod wedi gwneud apêl gref dros ryddhau Onesimus.

Yr un yw ei ddadl ynglŷn â'i agwedd honedig tuag at wragedd. Gwêl arwyddion o gyfartaledd rhwng y rhywiâu wrth ystyried eu cyfraniad amlwg i genhadaeth yr Eglwys Fore. Canfyddir datblygiad cynyddol geidwadol tuag at safle'r wraig yn y Colosiaid ac Effesiaid, ac mae hynny'n dwysáu erbyn dod at yr Epistolau Bugeiliol. Drwy gydol ei gyfrol pwysleisia Jewett y geiriau allweddol i'w holl feddylfryd ar y materion hyn: 'Nid oes rhagor rhwng Iddewon a Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chiwi oll yng Nghrist Iesu' (Galatiaid 3.28). Dyma'n wir graidd ei safbwynt ar yr holl faterion amrywiol yr ymdrinnir â hwy yn y gyfrol hon.

Trist yw cofnodi i Robert Jewett farw ychydig cyn y Nadolig diwethaf ac yntau'n 87 mlwydd oed. Mae'n gadael gwaddol cyfoethog o esboniadau, llyfrau, ac ysgrifau sy'n gyfraniad sylweddol i'n dealltwriaeth o'r Apostol a'i amgylchiadau. Ond mae hefyd yn ein cyfeirio at yr hyn y gall ei ddysgu inni mewn oes mor wahanol ar un olwg, ond un sydd yr un pryd yn wynebu problemau tebyg i'r rhai a wynebai ef.

John Tudno Williams
Capel Seion



Cyflwyno'r Golygyddion

Watcyn James

Cefais fy ngeni yn yr India a threulio amser yn ystod fy mhylentndod yng Nghoed-poeth, Wrecsam, yn Awstralia a Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Wedi graddio yn y Coleg Diwinyddol Unedig, Aberystwyth, cefais gyfle i wneud gwaith ymchwil pellach ac astudio cyfraniad John Davies, Tahiti, i'r deffroad cenhadol. Wedi fy ordeinio, bŵm yn gweinidogaethu yn ardal Cross Hands a Thŷ-croes yn Sir Gaerfyrddin am 20 mlynedd cyn gwasanaethu gyda Chymdeithas y Beibl.

Bellach rwy'n gwasanaethu cylch o eglwysy yng ngogledd Aberteifi sy'n cynnwys Rehoboth, Taliesin; Nasareth, Tal-y-bont; Capel y Garn, Bow Street; Capel Madog, Pen-llwyn a Chapel Seion. Bŵm yn olygydd *Y Goleuad* ers 2015. Rwy'n briod â Lowri ac mae gennym dri o blant a dau o wyrion, Mabon a Gruffudd. Edrychaf ymlaen am gael rhannu yn natblygiad *Cenn@d* i'r dyfodol, gan obeithio y bydd yn cyfrannu i drafodaethau ac yn hybu'r newyddion da yn ein plith.



Llun: Iestyn Hughes

Cyfleoedd y Clo colofn i rannu ychydig o newyddion da'r flwyddyn a aeth heibio

Aled Davies sy'n cychwyn y golofn yr wythnos hon

Bu llawer o drafod ar gyfyngiadau cyfnod y clo yn ein hanes fel eglwysi. Pawb yn huawdl am y digwyddiadau hynny NA fu modd eu cynnal, o oedfa i ysgol Sul, neu fore coffi at achos da. Heb os, amharwyd yn fawr ar rediad arferol ein heglwysi, a gwelir chwithdod methu gwneud sawl peth. Ond gwelwyd cyfleoedd newydd yn ystod y clo hefyd, a braf oedd tystio i weithgarwch byrlymus gan eglwysi ar hyd a lled Cymru. Dros yr wythnosau nesaf byddwn yn clywed gan ambell arweinydd eglwysig lleol am rai o'r cyfleoedd y gwaethon nhw fanteisio arnynt. Wrth fynd ati i wahodd cyfranwyr i rannu eu newyddion, dyma gychwyn yma yn lleol i ddechrau, yn yr ofalaeth wledig yn ardal Eifionydd yr wyf yn rhan ohoni.

Mae ein gofalaeth yma yn Eifionydd yn gylch o chwe eglwys, a hynny o draddodiadau enwadol sy'n cynnwys yr Annibynwyr, Bedyddwyr a Phresbyteriaid. Eglwysi bychain, gwledig, gyda chynulleidfa lle mae llawer yn oedrannus, ond gofalaeth hefyd lle mae criw da o blant mewn tair ysgol Sul wahanol. Fel pawb arall, mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn hollol wahanol i unrhyw beth a brofwyd yn y gorffennol, ond diolchwn am bob cyfrwng a chyfle ddaeth i'n rhan.

Ers mis Ebrill rydym wedi bod yn cynnal ein hoedfa wythnosol ar Zoom yn ddi-dor. I mi, roedd cael cynulleidfa fyw (er yn rhithiol) yn hollbwysig, a'r gweld ein gilydd hwnnw yn rhan bwysig o'r addoliad. Yn naturiol ar ddechrau Ebrill, roedd Zoom yn air diarth i bawb, ond o dipyn i beth, fesul un a dau, fe ddaeth cynulleidfa dda at ei gilydd – tipyn mwy na fyddai gennym hyd yn oed ar ôl cynnal pedair oedfa dros Sul cyfan. Cysur a bendith i ni oedd gweld rhai oedd yn gaeth i'w cartrefi ac yn methu mynychu oedfa arferol yn medru ymuno drwy'r cyfrwng hwn. Yn yr un modd aeth yr ysgol Sul ar lein hefyd, ac i fi fel gweinidog, bu hynny'n ffordd dda o ddod i nabod y plant. Felly, diolch am y cyfle hwnnw.

Wrth edrych yn ôl dros y cyfnod, mae sawl 'cyfle clo' yn dod i'r cof. Dros yr haf, cynhaliwyd dwy oedfa mewn ceir, un ar ben mynydd Moelfre Mawr, gyda golygfeydd godidog o'n cwmpas, a'r system sain yn cyrraedd pob car yn glir. Cyfle arall a ddaeth i'n rhan oedd cael cinio Nadolig gyda'n gilydd. Cinio poeth, tri chwrs, wedi ei




baratoi'n lleol yn cael ei rannu i 180 o bobl mewn ffenest o hanner awr, ac yna pawb yn ymuno dros Zoom i rannu cymdeithas.

Gwnaed yr un peth efo parti'r ysgol Sul. Daeth Siôn Corn atom yma i'r tŷ, a ninnau'n ei ffilio'n cyrraedd. Yna, aed ati i ddisbarthu 60 o becynnau bwyd efo treiffl a chacennau, ynghyd ag anrheg Siôn Corn, a phawb yn bwyta'u bwyd dros Zoom.

Efallai mai'r cyfle gorau wnaeth amlygu ei hun i ni oedd cyfarfodydd y Gymdeithas. Roedd gennym fel gofalaeth bedair Cymdeithas, pob un efo'i rhaglen, gan gyfarfod un ai'n fisol neu bob pythefnos. Ers mis Ebrill cynhaliwyd cyfarfod yn wythnosol, a llwyddwyd i gael siaradwyr yn fyw o Batagonia, America, Llundain, yr Alban, ac o bob cornel o Gymru, heb orfod poeni am gostau nac amser teithio. O'r herwydd, yn hytrach na dibynnu ar yr un selogion lleol yr oeddem yn troi atynt yn gyson, bu'n bosib gwahodd pobl wahanol a newydd i mewn, a gobeithio y bydd hyn yn parhau i'r dyfodol. Diolch am barodrwydd aelodau i addasu ac am fentro gyda ni i fyd diarth a gwahanol.

Un peth cyffrous ar y gweill ar hyn o bryd yw cynnal eisteddfod/Gylchwyl yr ofalaeth dros Zoom. Bydd cyfle i blant ac oedolion gystadlu gyda llefaru a chanu, crefft a barddoni, gan un ai gyflwyno ffilmau neu yrru gwaith dros y we, ac yna cynnal yr eisteddfod gan dderbyn beirniadaethau byw gan Gwenan Gibbard, Enid Parry a Bethan Llwyd.

Ond nid pawb sydd ar y we, wrth gwrs, a diolch am gyfleoedd i gael sgysiau da dros y ffôn, ac am gyfle hefyd i yrru ambell gylchlythyr drwy'r post. Wrth wynebu'r flwyddyn nesaf, gobeithio y cawn gyfle eto i addasu i ofynion y cyfnod. Os am fwy o wybodaeth am unrhyw beth uchod ewch i'n tudalen ar Facebook, sef www.facebook.com/gofalaethchwilog



Gweithredu a Gweddio gydol y Grawys

12

Dydd Gwener, Mawrth 12^{ed}

Gweithred: Beth am ffonio cymydog am sgwrs heddiw?

Gweddi: Gweddiwch dros bawb fydd yn derbyn y brechlyn yr wythnos yma, yn enwedig y rhai sy'n bryderus.

13

Dydd Sadwrn, Mawrth 13^{eg}

Gweithred: Gwnewch adduned i brynu rhywbeth i gymydog pan fyddwch yn siopa nesa.

Gweddi: Gweddiwch dros bawb sy'n ei chael hi'n anodd ar benwythnos oherwydd y cyfyngiadau cymdeithasol.

14

Dydd Sul, Mawrth 14^{eg}

Gweithred: Darllenwch bennod 22 o Efengyl Mathew i baratoi ar gyfer yr Wythnos Fawr.

Gweddi: Gweddiwch dros bawb fydd yn cynnal ysgol Sul heddiw, boed mewn capel neu dros y we.

15

Dydd Llun, Mawrth 15^{fed}

Gweithred: Postiwch gerdyn gyda gair o anogaeth i rywun sy'n byw ar ei ben / ei phen ei hun.

Gweddi: Gweddiwch dros bawb sy'n wynebu wythnos arall heriol yn y gwaith.

16

Dydd Mawrth, Mawrth 16^{eg}

Gweithred: Rhannwch neu prynwch dusw o flodau i'w roi i rywun heddiw.

Gweddi: Gweddiwch dros holl staff y Gwasanaeth Iechyd yng nghyfnod y Covid-19.

17

Dydd Mercher, Mawrth 17^{eg}

Gweithred: Os byddwch yn mynd am dro, beth am wneud ychydig o waith tacluso a llunau ar eich taith?

Gweddi: Gweddiwch dros bawb sy'n gweithio mewn ysgol yn y cyfnod anodd yma.

18

Dydd Iau, Mawrth 18^{fed}

Gweithred: Beth am roi rhodd i elusen heddiw? Mae modd gwneud hyn yn hawdd ar lein.

Gweddi: Gweddiwch dros y rhai hynny sy'n byw yn bell o adre, nad ydynt yn medru gweld eu teuluoedd ar hyn o bryd.



Newyddion lleol o'r eglwysi

Rydym yn awyddus iawn i gynnwys newyddion o'r eglwysi lleol: digwyddiadau, symudiadau, teyrngedau byr, llongyfarchiadau a dymuniadau gorau. Gyrrwch eich newyddion at y golygydd newyddion eglwysi, Aled Davies at aled@cennad.cymru

Cyflwyno'r Golygyddion

Huw Powell-Davies



Fel arfer, byddaf yn cael fy adnabod fel gŵr Nan! Mae'r ddau ohonom wedi bod yn cydweindogaethu yma yn Sir y Fflint ac wedi byw yn yr Wyddgrug ar hyd y ganrif hon. Mae gennym dri o blant: Robin, Miriam ac Obed, a dau ohonynt yn briod bellach.

Yn wreiddiol o Wyddelwern yn yr hen Feirionnydd, fe gefais fy magu ar fferm yno cyn symud i ddilyn cwrs yn y coleg yn Aberystwyth a gweithio yno am ychydig. Bûm yn is-warden yng Nghanolfan Plant ac Ieuenctid y Presbyteriaid yng Ngholeg y Bala am gyfnod a hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth yr un pryd. Mae gen i ddiddordeb yn hanes yr eglwys, ei chenhadaeth a'i llenyddiaeth.

Mae gennym ni ardd a rhandir sydd bob amser angen mwy o sylw. Mae gennym ni gi hefyd - Pero, sy'n mynnu mynd â ni allan am dro mor aml â phosibl hyd lwybrau'r ardal.

Ers 2016 bûm yn olygydd ar y tudalennau yr oedd y cylchgronau enwadol Cymraeg yn eu rhannu yn y Pedair Tudalen, ac rwy'n falch o gael parhau i fod yn gyfrifol am yr elfen drawsennadol honno yn *Cenn@d* a chael gweithio'n agosach gyda'r tîm golygyddol cyfan.

Aled Davies



Mae fy ngwreiddiau ym mhentref Llanllwni, yn Sir Gaerfyrddin, ac rwy'n un o blant eglwys Aberduar. Fe'm hyfforddwyd ym Mangor i fod yn weinidog, a dechreuais weinidogaethu ym Mhonrhydfendigaid yn 1988. Ers 1992 rwyf mewn gofalaeth bro ran-amser, yn ardal Chwilog, Eifionydd, i dri enwad gwahanol (Annibynwyr, Bedyddwyr a Phresbyteriaid), ac yn Ysgrifennydd Cymanfa Bedyddwyr Arfon. Cefais fy mhenodi gan Gyngor yr Ysgolion Sul yn 1989 fel Swyddog Datblygu Gogledd Cymru; yna fe fues i'n Ysgrifennydd Cyffredinol y Cyngor am ddegawd, a bellach rwy'n Gyfarwyddwr y gwaith ers 2006. Rwyf hefyd yn Gyfarwyddwr Cyhoeddiadau'r Gair ers ei sefydlu yn 1992.

Mae fy niddordeb mewn gwaith plant yn ymestyn y tu allan i Gymru, ac rwy'n un o gyfarwyddwyr cwmni Roots for Churches, sy'n cynhyrchu cylchgronau dysgu ac addoli ar gyfer yr eglwys. Rwyf hefyd yn cynrychioli Cymru ar fwrdd rheoli Rhwydwaith Gwaith Plant Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon a Rhwydwaith Addysg Ewropeaidd ECCE.

Bûm yn olygydd *Cristion* am bum mlynedd ac yn brif olygydd *Seren Cymru* am 15 mlynedd, a bellach yn edrych ymlaen at gael cydweithio fel aelod o dîm golygyddol *Cenn@d*.

Rwy'n byw yn Chwilog ers dros 20 mlynedd ac yn briod â Delyth Wyn. Mae gennym ddau o blant, sef Gruffydd a Llio, a merch yng nghyfraith, sef Eleri. Ymhlith fy niddordebau mae cefnogi'r Elyrch sy'n chwarae yn stadiwm y Liberty, gwyllo rasio Fformiwlâ Un ac, fel mab i arwerthwr, rwy'n mwynhau chwarae rhan 'arwerthwr' o dro i dro, drwy gynnal ambell arwerthiant i godi arian at elusennau.

ADNABOD

CYMERIADAU'R TESTAMENT NEWYDD

ACTAU'R APOSTOLION

Cyfes o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Gwers 36 – Haelioni Poplius

Gweddi

Nefol Dad, yr hwn wyt yn llond pob lle, yn pontio pobloedd o bob cefndir, cenedl ac iaith, helpa ni i weld angen eraill a chlywed eu cri. Maddau i ni am bob arwydd hunanol a phob amharodrwydd i geisio cefnogi'r anghenus yn lleol ac yn fyd-eang. Amen.

Darllen

Actau 28:1–15

Cyflwyniad

Bu'r daith i Rufain yn llawn helyntion, ond mae Luc yn defnyddio'r hanes fel modd o ddangos bod llaw Duw ar ysgwydd y teithwyr, a bod rhyfeddodau'n digwydd er mwyn darparu ar gyfer eu hanghenion ar y naill law, ac i ddangos i frodorion Melita (Malta) ryw bethau gwyrthiol ac anesboniadwy.

Ar ôl wynebu storm a llongddrylliad, glaniwyd ar draeth ym Melita, a chafwyd croeso iddynt gan y brodorion. Gwelir Paul fel gŵr ymarferol, a chasglodd goed i gynnu tân; yn sydyn, neidiodd gwiber a glynu wrth ei fraich. Arweiniodd hyn y brodorion i gredu ei fod yn lleidr ac y byddai farw. Pan na ddigwyddodd hynny, aethant i feddwl ei fod yn wrthrych addoliad.

Rhan o'r ymateb hwnnw oedd i Poplius, gŵr cyfoethog oedd yn berchen ar eiddo, letya'r bobl a achubwyd o'r môr am dridiau, nes iddynt drefnu llety annibynnol am dri mis, sef tymor y stormydd hyn. Cyfeiriwyd ato fel

arweinydd, ac ystyr ei enw yw 'yr hyn sy'n berthnasol i'r bobl'. Mae'r gair Saesneg 'public' yn rhannu yr un gwreiddyn. Roedd yn cynnig arweiniad ac esiampl i'w bobl, ac ar eu rhan yn gweld croesawu'r anghenus a'r digartref fel gweithred gyfrifol a phwysig. Ymhen y tri mis, aeth y cyd-deithwyr ar eu taith ar long arall a fu'n cysgodi ar Melita er mwyn cyrraedd Rhufain.

Myfyrdod

Roedd Melita ynghanol Môr y Canoldir, i'r de o Ynys Sisili. Mae'n siŵr eu bod yn ddigon cyfarwydd yno â chynnig cysgod i longau a deithiai ar draws y môr hwn. Prin fod llongddrylliadau yn ddieithr iddyn nhw – rhai yn gweld colledion ac eraill yn ffodus i gyrraedd glan. Pwyslais Luc wrth adrodd yr hanes oedd nodi croeso a darpariaeth y trigolion i'r trueiniaid hyn.

Arferai'r gair Saesneg 'inn' gyfleu man o ymgeledd, lle byddai'r teithwyr yn siŵr o gael lloches a phryd bwyd. O *The Inn of the Sixth Happiness* hyd at y llety ym Methlehem, yr un yw'r gwasanaeth sylfaenol. Dywed un o ganeuon mwyaf poblogaidd ein cyfnod fod yr 'Harbwr Diogel' i'w drysori. Yn amlwg, lle daearyddol oedd Ynys Melita, a mangre benodol fydd yr harbwr diogel. Pwysleisia Luc, wrth adrodd yr hanes, fod croeso a haelioni Poplius a'i deulu yn hafan diogel hefyd.

Bydd dioddef casineb a'r ymdeimlad o ddiffyg croeso yn erchyll i bawb, yn arbennig y rhai sy'n ffoaduriaid ar daith bywyd. Erys Poplius yn gynrychiolydd parch a lletygarwch i bawb. Roedd

gwasanaeth felly yn greiddiol i neges Iddewiaeth, ac mae Cristnogaeth yn grefydd sydd am weld parch ac urddas yn cael eu cynnig i bawb, beth bynnag eu hamgylchiadau. Wrth i'r rhai sy'n dianc rhag amgylchiadau brawychus yn y Dwyrain Canol geisio harbwr diogel ym Mhrydain ac ar gyfandir Ewrop, ein braint ni fydd agor drws a rhannu ein gofod ag eraill.

Gweddi

Diolch am haelioni Poplius, yn darparu ar gyfer y rhai a nofiodd i'r lan. Diolch am bob hanes o haelioni yn ein cymuned a'n byd. Maddau i ni am estyn briwsion ein byrddau heb fedru darparu lle i'r rhai sydd ar eu cythlwg. Cymorth ni i ymarfer caredigrwydd a chymwynasgarwch. Amen.

Trafod ac Ymateb

- Mae un weithred garedig yn arwain at un arall wrth i Paul fynd ati i weddio am iachâd i dad Poplius hefyd (adn. 8), a'r cleifion ar yr ynys i gyd yn cael eu hiachâu (adn. 9). Os cawsoch chi frechlyn yn erbyn effeithiau Covid-19, beth am i ninnau ymateb yn ddiolchgar drwy gyfrannu at y gwaith brechu mewn gwledydd na all fforddio brechu pawb?
- Pa waith sy'n cael ei wneud yn eich ardal chi gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches? Oes yna ryw beth y gallwch chi ei wneud i'w cynorthwyo?
- Mewn cyfnod lle nad oes modd cynnig lletygarwch i bobl yn ein cartrefi, trafodwch ffyrdd eraill o estyn lletygarwch a dangos caredigrwydd fel y gwnaeth Poplius a thrigolion Melita.

S4C

Sul, 14 Mawrth

Oedfa Dechrau Canu, Dechrau Canmol am 11:00yb yng ngofal Mererid Mair

Dechrau Canu, Dechrau Canmol, nos Sul, am 7:30yh

Ar Sul y Mamau byddwn yn rhoi teyrnged ac yn dathlu cyfraniad mam annwyl a gollwyd yn frawychus o sydyn ond a adawodd waddol gwerthfawr a pharhaol ar ei hôl, mam a nain annwyl, nid yn unig i'w theulu clòs ond i fro gyfan, sef Margaret Edwards

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 14 Mawrth, 7:30yb a 4:30yp
Ailddarllediad o gapel Salem, Llangennech, gyda Jennifer Clarke yn cyflwyno

Oedfa Radio Cymru

Sul, 14 Mawrth, Sul y Mamau, am 12:00yp
yng ngofal Nia ac Elin Williams, Pwllheli

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Dyma babell y cyfarfod ...

Emyn 216: ‘Duw mawr y rhyfeddodau maith’

Gwedd

Arglwydd tirion, diolch i ti dy fod, yn dy Fab lesu Grist, wedi dewis peidio â rhoi i'r byd yr hyn a haeddai ond dy fod, yng Nghrist, wedi dewis pellhau ein camweddau oddi wrthym. Yn dy gyfamod newydd addewaist ysgrifennu dy gyfraith ar galonau o gnawd, nid ar lechi oer. Arglwydd, drwy dy Ysbryd Glân, a wnei di feddalur afrywiog fron, ac ennill ein calonau heb orfodaeth, cur na thrais. Gogonedda dy hun ynom. Amen.

Cyflwyniad: Cysgod a sylwedd

Un gyda'r hwyr, a'i galon cyn dywyllid ag amser ei ymweliad, daeth Nicodemus, athro a hyfforddwr yn Israel, wyneb yn wyneb ag Iesu. Clywodd mai dim ond drwy enedigaeth newydd, oddi uchod, drwy enedigaeth ysbrydol, y câi ei dywyllwch ei symud. A chan ddefnyddio hanes rhyfeddol yn yr ysgrifurau Iddewig trodd sarff yn yr anialwch yn gysgod o'r hyn fyddai Iesu'n ei gyflawni.

Darlleniadau: Numeri 21:4-9; Ioan 3:13-15 Myfyrdod

Nid yr un yw ein cysgod a'n corff. Mae cyswllt a thebygrwydd rhwng fy nghysgod a mi. Fy nghysgod i ydyw, wedi'r cwbl. Ond nid fi yw fy nghysgod. Ac o gofio mai 'cysgod' yw'r hyn ddigwyddodd yn Numeri 21:4-9, deallwn y bydd 'tebygrwydd' rhwng yr hyn a ddisgrifir yno a chroes Iesu Grist. Ond mae'r sylwedd ei hun yn llawer mwy gogoneddus. Pan edrychwn ar yr hanes a gofnodir yn Numeri, nodwn hyn:

- **grwnach y bobl** (adn. 4-5) Mor aml mae ysbryd grwnachlyd, anniddig yn ddall i ddarpariaeth a gofal yr Arglwydd o ddydd i ddydd. Ond mynegiant ydyw, yn fynych, o'n diffyg ymddiriedaeth a diolchgarwch, ac o'n gwrthryfel yn erbyn yr Arglwydd ei hun; cymharer adn. 7
- **canlyniadau i'r bobl** (adn. 6) O bosib, mae'r seirff gwenwynig yn adleisio hisian calonau'r bobl a'r gwenwyn oedd ar eu gwefusau a'u lleferydd
- **canfyddiad** o angen (adn. 7)
- **cyhoeddiad a darpariaeth annisgwyl** (adn. 7b-8) Dyrchafwyd sarff bres i orchfygu'r seirff gwenwynig. Nid y sarff bres wedi ei dyrchafu ond edifeirwch, addewid a ffydd yn yr hwn a lefarodd, a ddaeth â bywyd i'r troseddwr.

Meddai Iesu wrth Nicodemus: mae'r Arglwydd Dduw wedi darparu Gwaredwr ar gyfer byd gelyniaethus. Disgynnodd o'r

nef. Ond mae Mab y Dyn sydd i deyrnasu mewn gogoniant yn mynd i ddiodeff. Caiff ei ddyrchafu – fel y sarff – ar groesbren, er mwyn symud gwrthryfel a grwnach cenhedloedd byd. Edrych arno drwy ffydd sy'n dwyn iachawdwriaeth.

Darlleniad: Ioan 3:16-21 – eglurhad Myfyrdod

Mae'n bur debyg mai myfyrdod Ioan ar eiriau Iesu yw'r adnoda hyn, yn hytrach na pharhad o eiriau Iesu wrth Nicodemus. Maen nhw'n bwysig, er hynny, am eu bod yn caniatáu i ni glywed myfyrdod aeddfed ar yr hyn a gyflawnwyd gan Iesu ar Galfaria. Clywn adlais pregethu'r Eglwys Fore yn ei neges, ei gysur, ei obaith a'i rybuddion. A down wyneb yn wyneb â rhyfeddol calon ein ffydd. Neges ydyw na chlywir gan unrhyw athro crefyddol arall: bod Duw, er ein gwrthryfel fel hil, yn Dduw cariad anorchfygol ac o'i gariad ei fod wedi darparu Gwaredwr rhyfeddol.

Man cychwyn Ioan yw datganiad, ffanffer o gyhoeddiad (3:16). Dyma ddatganiad rhyfeddol o gariad Duw a bendithion credu ynddo a'i dderbyn.

- Faint mae Duw yn ein caru ni? Cymaint â hyn. Cymaint â'i fod 'wedi rhoi ei unig Fab...' (adn. 16).
- Pam ei fod wedi rhoi ei Fab? Ar ryw olwg, mae'n achos rhyfeddol a syndod, ac yn ddirlgelwch na allwn ei fesur. Meddai Pantycelyn:

Oryfedd ddoethineb – rhyfeddod ei hun – a ffeindiai'r fath foddion i brynu'r fath un; fy Iesu yn marw, fy Iesu oedd Dduw, yn marw ar groesbren i minnau gael byw. *(Caneuon Ffydd, 529)*

- Cymhelliad y fath weithrediad yw cariad rhyfeddol Duw tuag at hil a gefnodd arno. Hil ydym sydd hyd heddiw'n dal i floeddi am ryddhau Barabbas o 'wardwr' a'i greulondeb, gan wrthod Iesu, mab Duw, darpariaeth Duw. 'Ymaith ag ef. Croeshoelir ef,' yw ein cri. Daeth Mab y Dyn gan wisgo cnawd ein gwrthryfel a'n pechod, heb iddo'i hun fod yn gyfrannog o'r pechod hwnnw. Daeth i ganol ein penyd a'n pwn i'n prynu o'n caethiwed ac i'n rhyddhau o'n cadwynau.

Grym cariad yn y Duwdod oedd gwisgo natur diad,

A chariad a ddiodeffodd ei loesau bob yr un;

A chariad anorchfygol, yn wenfflam gadarn, gref
Sy'n anfon pob rhyw roddion i'w ei gariadau ef. *(Theomemphus)*

- Ond beth yw symbyliad y cariad hwnnw? Beth yw tarddiad y cariad hwn? 'Carodd Duw' am mai 'Duw, cariad yw'. Cariad Duw, nid angen y creadur, yw'r symbyliad. Cariad Duw sy'n llosgi'n angerddol berffaith, yn annibynnol o ymateb y gwrthrych. 'Spontaneous, self-generated, without reference to the loved one' yw esboniad un ysgolhaig.
- Cariad ydyw, er hynny, sy'n cynnig dyfodol amgen i dderbynwyr ei gariad: 'er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol' (3:16).
- Yn 3:17 datgenir yr un egwyddor trwy egluro beth rydym yn ei fforffedu drwy beidio â chredu yn Iesu Grist.
- Dywed adn. 18 wrthym fod perchnogion ffydd eisoes wedi dechrau profi bywyd. Yn wir, yn adn. 19-21, datgelir i ni gyflwr ein calon ar hyn o bryd. Cuddio rhag y 'goleuni' a wna'r anghredadun, tra mae'r hwn sy'n credu ac yn derbyn gras Duw yn nesáu ato.

Wel dyma'r ddamnedigaeth yr awron sydd yn bod,
Sef peidio derbyn meddyg, y Meddyg gorau erio'd
Ofnadwy ydyw edrych ar ddyfais nef yn fach,
Ffieiddio'r unig blastar sy'n gwneud y clwyf yn iach. *(Theomemphus)*

Gwedd

Dirion Arglwydd, mawr yw dy ffyddlondeb. Rhyfeddwn dy fod wedi estyn dy ddwylo tuag atom yn dy Fab, Iesu Grist. Rhyfeddwn at dy gariad oedd yn parhau i garu euog fyd, hyd yn oed pan hoeliwyd y breichiau a estynnwyd ar groesbren Calfaria. Rhyfeddwn dy fod yn parhau i gynnig bywyd a goleuni i ni er y byddai'n well gennym, hyd yn oed heddiw, gerdded mewn anuffuddod a gwrthryfel. A wnei di dyneru ein calonau a thoddi'r caledwch? A wnei di ein denu o gysgodion ein gwrthgiled i oleuni dy Fab, fel y cawn adnabod dy gariad, dy fywyd a rhodio'n deilwng ohonot a'th ras? Bywha ni, dirion Arglwydd, drwy dy Ysbryd Glân. Amen.

Emyn 516: 'Iesu ei hunan yw fy mywyd'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteriaidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@cennad.cymru

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)